

<b>Cyfarfod:</b>	<b>Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>11 Chwefror 2021</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor</b>
<b>Pwrpas</b>	<b>Cytuno ar argymhelliad i'r Cyngor llawn</b>
<b>Awdur:</b>	<b>Dilwyn Williams – Prif Weithredwr</b>

## CEFNDIR

1. Ers 2012 mae yna ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol. Mae'r gofyn statudol hwnnw yn nodi mai swyddogaeth i'r Cyngor llawn yw cymeradwyo'r polisi tâl.
2. Wrth fabwysiadu'r polisi tâl ar gyfer 2012 / 13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn.
3. Gofynnir i'r Pwyllgor hwn felly ystyried cynnwys y drafft o bolisi tâl ar gyfer 2021 / 22 a chyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 4ydd o Fawrth eleni.

## PRIF SWYDDOGION

4. Yn y cyfarfod cyfatebol y flwyddyn diwethaf, bu i'r pwyllgor ofyn i mi gynnal adolygiad o gyflogau Prif Swyddogion. Roedd hynny yn sgil y ffaith nad yw'r Cyngor wedi adolygu cyflogau ei Brif Swyddogion ers sawl blwyddyn, a bod angen bod yn fyw i'r posibilrwydd ein bod yn syrthio y tu ôl i sefydliadau cyfatebol a chyfagos wrth gymharu cyflogau, a bod yna risgiau posib yn deillio o hynny. Rwyf yn adrodd ar fy nghasgliadau mewn adroddiad ar wahân i'r eitem hon; bydd eich argymhelliad fel pwyllgor ar hynny yn cael ei ymgorffori yn y Polisi Tâl a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth.
5. Yn gwbl ar wahân i'r adolygiad uchod, dylid cofio fod gan bob Prif Swyddog yr hawl i'r codiadau cyflog sy'n cael eu pennu yn genedlaethol gan y Cyd-Gyngor Trafod Telerau Cenedlaethol ar Gyfer Prif Swyddogion. Mae'r rhain yn delerau cytundebol y mae'n rhaid i bob cyflogwr weithredu arnynt. Gyda hyn mewn golwg, mae'r drafft polisi tâl yn datgan **'fod gan y Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol presennol.'** Wrth fabwysiadu'r polisi tâl blynyddol felly, mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r codiadau cyflog cenedlaethol hyn. Ar gyfer y flwyddyn 2020/21 roedd y cynnydd yn y cyflogau yn 2.75%.
6. Nid yw'r trafodaethau ar y codiadau cyflog cenedlaethol gyfer 2021/22 wedi dechrau eto, ond mae posib na fydd yna gynnydd yn y flwyddyn sydd i ddod. Ym mis Tachwedd 2020 cyhoeddodd Canghellor Llywodraeth Prydain y byddai yna rewi ar gyflogau rhai rhannau o'r sector gyhoeddus am y tro. Er nad ydi effaith y cyhoeddiad hwn ar lywodraeth leol yn gwbl glir eto, mae'n bosib y bydd yn dylanwadu ar y trafodaethau cenedlaethol ar gynnydd yn y cyflog.

## **SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG**

- 7.** Mae gan staff sydd yn gweithio mewn swyddi o dan lefel Prif Swyddogion yr hawl cytundebol i godiadau cyflog sydd yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar Gyfer Gweithlu Llywodraeth Leol. Roedd y cynnydd yn y cyflog ar gyfer 2020/21 yn 2.75%.
- 8.** Fe all y cyhoeddiad i rewi cyflogau rhai rhannau o'r sector gyhoeddus fod yn berthnasol ar gyfer ein gweithlu ehangach ni am y flwyddyn sydd i ddod hefyd. Nid yw'r trafodaethau cenedlaethol ar gynnydd posib wedi dechrau eto, ond mae'n sefyll i reswm y gall y cyhoeddiad gan Lywodraeth Prydain ym mis Tachwedd ddylanwadu ar hynny. Pe bai yna gynnydd yn y cyflogau ar gyfer 2021/22 yna bydd y Cyngor yn gweithredu ar unrhyw benderfyniad cyn gynted â phosib.

## **ARGYMHELLIAD**

- 9.** Bod y Pwyllgor yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tâl drafft i'r Cyngor fel un i'w fabwysiadu ar gyfer 2021 / 22.